# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a gofalgar lle mae lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac uchelgeisiol sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus gyda disgyblion, staff a rhieni. Mae hyn yn arwain at ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch rhwng staff a disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr ac athrawon yn meithrin diwylliant cadarnhaol sy'n hybu dysgu proffesiynol ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i staff ddatblygu eu medrau. Mae'r cwricwlwm sy'n cael ei ddarparu gan athrawon yn ddiddorol ac yn datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gelfydd.

Mae disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol a chwilfrydig, gyda'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn mewn medrau llafaredd, darllen, ysgrifennu a mathemateg. Er bod cynnydd priodol mewn medrau llafaredd a darllen Cymraeg disgyblion, mae'r lleiafrif yn llai hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu dysgu a'r chwarae. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ysgrifennu mewn amrywiaeth o destunau yn eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn y ddwy iaith.

Mae staff yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog, sy'n cynnwys tasgau ymarferol a gweithgareddau celfyddydol gwerthfawr. Mae gwaith celf disgyblion yn elfen nodedig ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r celfyddydau mynegiannol yn effeithiol. Mae'r defnydd o'r ardaloedd allanol yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn cefnogi lles a datblygiad cymdeithasol disgyblion yn fuddiol.

Mae perthynas weithio cryf rhwng staff, disgyblion a rhieni, sy'n hybu parch a chyfathrebu effeithiol. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb yn ofalus ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac yn herio a chefnogi arweinwyr yn fwriadus.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel, cefnogol ac ysbrydoledig lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn datblygu'n ddysgwyr hyderus, chwilfrydig ac ymroddedig.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella**

A1 Parhau i ddatblygu medrau llafar a darllen Cymraeg er mwyn gwella hyder a rhuglder y disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2026